Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Ansawdd Adeiladau Newydd mewn Addysg Bellach a'u heffaith ar ddysgwyr

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr mewn Pobl | Investors in People

MEHEFIN 2010

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; a
- darpariaeth cyflogaeth wedi'i chontractio gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk


Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk


**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **3** |
| **Prif ganfyddiadau** | **4** |
| **Argymhellion** | **6** |
| **Pa mor dda y mae colegau yn cynllunio adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol?** | **7** |
| **Beth yw effaith adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol ar ddeilliannau dysgwyr?** | **8** |
| Cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddo dysgwyr | 8 |
| Cyfraddau ymrestriadau a phresenoldeb dysgwyr | 8 |
| **Beth yw safbwyntiau dysgwyr, athrawon ac arweinwyr am adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol?** | **9** |
| **Beth yw effaith adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol ar ddatblygiadau 14-19 ac ar ymgysylltu â chyflogwyr?** | **12** |
| **Atodiadau** | |
| **Geirfa/cyfeiriadau** | |
| **Tîm yr arolwg** | |

## Cyflwyniad

1 Diben yr arolwg hwn yw rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar yr effaith ar berfformiad dysgwyr mewn colegau addysg bellach ar ôl symud i mewn i adeiladau newydd neu adeiladau sydd wedi cael eu hadnewyddu'n sylweddol. Cyhoeddwyd yr adroddiad i ymateb i gais am gyngor yn y cylch gwaith blynyddol Gweinidogol i Estyn ar gyfer 2009-2010.

2 At ddibenion yr adroddiad hwn, 'adeilad newydd' yw adeilad sydd wedi cael ei adeiladu ar dir newydd neu dir sydd wedi cael ei glirio ar gyfer y pwrpas hwnnw. Diffinnir 'adnewyddu'n sylweddol' fel addasu adeilad presennol yn sylweddol sy'n cynnwys newid rhaglenni astudio a/neu gymorth dysgu.

3 Wrth gynnal yr arolwg hwn, ymwelodd arolygwyr ag 13 o golegau. Fe wnaeth arolygwyr hefyd ystyried data oedd ar gael[1] ar berfformiad colegau addysg bellach a sefydliadau addysgol eraill ar ôl sefydlu adeiladau newydd neu gynnal gwaith adnewyddu sylweddol.

4 Mae'r colegau yr ymwelwyd â nhw yn cynrychioli tua hanner y colegau yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd y colegau hyn yn cyfrif am 86% o'r dyraniad cyllid i brosiectau adeiladu newydd rhwng 2004 a 2009. Roedd y colegau hyn hefyd yn cyfrif am 74% o'r gwariant cyfalaf a ddyrannwyd rhwng 2004 a 2006.

5 Mae'r arolwg hwn yn dilyn methodoleg debyg i arolwg Estyn yn 2007 ar berfformiad ysgolion a sefydliadau addysgol eraill yn dilyn sefydlu adeiladau newydd neu adnewyddu adeiladau yn sylweddol[2]. Fe wnaeth arolygwyr hefyd gynnal adolygiad o lenyddiaeth gyfredol (gweler Atodiad 1).

6 Defnyddiodd arolygwyr dystiolaeth o ddata perfformiad ac adroddiadau arolygu Estyn ar y canlynol:

- cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddo;
- tueddiadau mewn ymrestru;
- cyfraddau presenoldeb;
- ansawdd yr addysgu;
- agwedd ac ymddygiad dysgwyr;
- ansawdd ac ystod y cwricwlwm, yn enwedig yn yr ystod oedran 14-19;
- lefel ymgysylltu â chyflogwyr, yn enwedig mewn meysydd galwedigaethol; ac
- agweddau ar arweinyddiaeth a rheolaeth.

[1] Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC)
[2] Arfarniad o berfformiad ysgolion cyn ac ar ôl symud i adeiladau newydd neu adeiladau wedi'u hadnewyddu'n sylweddol (Ionawr 2007)

7 Aeth arolygwyr ati i bennu cost adeiladau newydd o gyllid cyfalaf rhwng 2004 a 2006 a chost adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol o grantiau prosiect rhwng 2006 a 2009. Fe wnaeth arolygwyr hefyd ofyn safbwyntiau dysgwyr ac athrawon sy'n defnyddio'r adeiladau newydd.

8 Yn ystod eu hymweliadau â'r colegau, dangosodd arolygwyr ddiddordeb yn y prif brosiectau, yn bennaf ym meysydd dysgu galwedigaethol adeiladu a pheirianneg. Fodd bynnag, cafodd meysydd dysgu eraill, fel y celfyddydau perfformiadol, celf a dylunio, astudiaethau'r tir, gofal, gwallt a harddwch a lletygarwch, eu cynnwys hefyd. Roedd gan arolygwyr ddiddordeb yn y ffordd yr oedd colegau'n cyfuno adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol gyda meysydd generig ar gyfer dysgwyr fel canolfannau adnoddau dysgu, ystafelloedd cyfrifiaduron mynediad agored, ffreuturau a gofod cymdeithasol dysgwyr.

## Cefndir

9 Yn ystod y cyfnod 2004-2006, roedd yn ofynnol i golegau wneud cynnig am gyllid ar gyfer cyllid cyfalaf, ond nid oedd hwn o angenrheidrwydd wedi'i dargedu tuag at adeiladau newydd neu waith adnewyddu sylweddol. Defnyddiodd colegau'r cyllid hwn i gyfrannu at ddatblygu eu hystadau, ond yn nodweddiadol, roeddent yn cael eu defnyddio mwy i ddiweddaru a gwella offer.

10 Yn ystod y cyfnod hwn, roedd cyllid yn tueddu i gael ei ddyrannu i golegau mewn perthynas â'u maint. Anfantais y dull hwn oedd nad oedd y cyllid oedd ar gael yn cael ei ledaenu'n helaeth, felly roedd y rhan fwyaf o golegau'n derbyn symiau cymharol fach o gyllid. Er mwyn datblygu eu hystadau, roedd colegau'n tueddu i ddefnyddio ffynonellau eraill i ariannu adeiladau newydd neu waith adnewyddu sylweddol. Roeddent yn defnyddio eu cyllid wrth gefn a/neu fenthyciadau masnachol.

11 Er 2006, mae LlCC wedi gweithredu proses yn seiliedig ar feini prawf ar gyfer cynigion oddi wrth golegau, yn benodol ar gyfer adeiladau newydd neu waith adnewyddu sylweddol. Mae'r broses hon yn sicrhau bod cynnig pob coleg yn cael ei arfarnu gan ddefnyddio'r un meini prawf a osodwyd gan LlCC. Mae hyn yn golygu nad yw pob coleg yn derbyn cyllid bob blwyddyn. Mewn gwirionedd, nid yw rhai colegau wedi derbyn unrhyw gyllid trwy'r llwybr hwn yn ystod y cyfnod hwn.

12 Prif fantais y broses yw bod cyllid sylweddol yn cael ei ryddhau i'r colegau hynny y mae eu cynigion yn llwyddiannus. Ymddengys bod colegau sydd eto i dderbyn cyllid trwy'r llwybr hwn yn fodlon y bydd ganddynt achosion cryf dros lwyddo pan fyddant yn gwneud cynnig am gyllid yn y pen draw. Mae hyn yn arbennig o wir am golegau sy'n cynnal adolygiadau gweithredol strategol gyda'r bwriad o uno gyda choleg arall neu golegau eraill a chynyddu eu gwaith mewn ardal leol a rhwydweithiau rhanbarthol. Erbyn hyn, mae colegau yn cymryd safbwynt strategol hwy o'u strategaethau ystadau nag y maent wedi gwneud yn y gorffennol. Maent hefyd wedi dechrau gweithio'n agosach gyda phartneriaid, fel awdurdodau lleol, i ddatblygu eu hystadau ar gyfer ystod ehangach o ddysgwyr, yn enwedig dysgwyr 14-19 oed.

13 Adolygiad amrywiol o addysg bellach a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd Adolygiad Webb, 'Addewid a Chyflawniad' (Rhagfyr 2007). Yn yr argymhellion ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19, mae Webb yn nodi bod angen datblygu cyfres o ganolfannau dysgu ymarferol ar gyfer pobl ifanc ar y cyd â chyflogwyr ac o bosibl yn cael eu cefnogi gan gyllid Cydgyfeirio Ewropeaidd. Mae'r adolygiad hefyd yn pwysleisio bod y cyfleusterau a ddefnyddir gan ddysgwyr yn bodloni safonau diwydiannol.

14 Yn ystod arolygiadau yn 2004-2010, arolygodd Estyn yr adeiladau ar gyfer dysgu o dan Gwestiwn Allweddol 7 y Fframwaith Arolygu Cyffredin. Mae arolygwyr wedi rhoi gradd 'da' neu 'ragorol' i Gwestiwn Allweddol 7 yn y mwyafrif o arolygiadau. Fodd bynnag, mae Estyn wedi gwneud sylwadau ar rai meysydd sydd ag adeiladau gwael neu amhriodol ar gyfer dysgu. Yn benodol, wrth i feintiau grwpiau gynyddu, mae arolygwyr wedi gwneud sylwadau ar leoedd dysgu gorlawn sy'n gallu cyfyngu ystod yr arddulliau addysgu a dysgu.

## Prif ganfyddiadau

15 Yn ystod y cyfnod rhwng 2004 a 2009, ac yn benodol 2006 a 2009, mae colegau a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddarparu adeiladau a chyfleusterau gwell trwy gyllid cyfalaf a phrosiectau adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol.

16 Yn y colegau yr ymwelwyd â nhw, mae adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol i adeiladau wedi cydredeg â gwelliant mewn cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddo dysgwyr a llai o ostyngiad mewn ymrestriadau. Gall gwelliant yn neilliannau dysgwyr ddeillio o ystod o ffactorau, ond mae adeiladau newydd yn gwneud cyfraniad pwysig.

17 Nid yw symud dysgwyr, athrawon ac arweinwyr i adeiladau newydd yn sicrhau gwelliant i ddysgwyr ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, yn y colegau yr ymwelwyd â nhw, mae'r gwelliant cyffredin yn neilliannau dysgwyr ar gyfer y meysydd dysgu a gafodd adeiladau newydd yn well ar y cyfan na'r gwelliant yn y coleg yn gyffredinol. Mae mwy o welliant wedi bod yn neilliannau dysgwyr mewn colegau sydd wedi cael adeiladau newydd na'r cyfartaledd ar gyfer yr holl golegau yng Nghymru.

18 At ei gilydd, mae cyfradd bresenoldeb dysgwyr wedi gwella ar draws y sector, ond mae hyn yn ymwneud â'r holl feysydd ac nid â meysydd sydd ag adeiladau newydd yn unig. Fodd bynnag, mae rhywfaint o dystiolaeth bod dysgwyr mewn adeiladau newydd a/neu mewn adeiladau sydd wedi cael eu hadnewyddu'n sylweddol wedi gwella eu presenoldeb o'u cymharu â chyfraddau'r dysgwyr pan oeddent mewn adeiladau blaenorol.

19 Yn ystod y cyfnod 2006-2009, mae colegau wedi gwario bron i £73 miliwn ar brosiectau adeiladau newydd neu waith adeiladu sylweddol gyda chymorth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Darparwyd dros hanner o hwn (51%) trwy grantiau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ystod y cyfnod hwn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynyddu ei gyfraniad yn raddol at gyfanswm y costau adeiladu o ryw 48% yn 2006-2007 i 51% yn 2008-2009 (gweler Atodiad 2). Mae cynlluniau ar waith ar gyfer cynnydd pellach yn 2009-2010 i 82%. Mae hyn gyfwerth â thua £74 miliwn o gost arfaethedig prosiectau adeiladau newydd yn 2009-2010, sef £90 miliwn. Yn ychwanegol, mae colegau sydd wedi gallu defnyddio eu hadnoddau eu hunain wedi defnyddio'r rhain yn dda i wella eu hystadau dros y blynyddoedd diwethaf.

20 Mae colegau wedi defnyddio'r rhan fwyaf o'r cyllid i wella'r adeiladau a'r cyfleusterau ar gyfer meysydd galwedigaethol traddodiadol, fel adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig, a pheirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu, i sicrhau eu bod yr un mor gyfoes â'r technolegau newydd ac i gefnogi adfywio economaidd yng Nghymru. Ar yr un pryd, rhoddodd hyn gyfle i golegau ddatblygu mewn meysydd eraill, er enghraifft, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal, a therapïau gwallt a harddwch. Defnyddiodd colegau ddyluniadau arloesol i gysylltu'r adeiladau newydd hyn gyda datblygiadau mewn meysydd generig ar gyfer dysgwyr, er enghraifft, canolfannau adnoddau dysgu wedi'u cysylltu â chyfleusterau TGCh mynediad agored a mannau cymdeithasol dysgwyr fel cyfleusterau ffreutur ac ystafelloedd cyffredin.

21 Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol. Maent yn ystyried bod yr adeilad newydd yn amgylchedd dysgu llawer gwell na'r adeilad blaenorol. Yn nodweddiadol, dywedodd dysgwyr fod y gofod a'r cyfleusterau gwell yn eu galluogi i ddatblygu eu gwaith ar lefelau medr uwch. Mewn rhai achosion, caiff yr adeilad newydd effaith ar eu dewis o gwrs a choleg. Dywed pob un o'r dysgwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fwy a bod ganddynt fwy o hunangymhelliant mewn adeiladau newydd ac adeiladau wedi'u hadnewyddu. Dywed athrawon fod ganddynt lefelau gwell o gymhelliant ar ôl symud i adeilad newydd.

22 Mae colegau yn diweddaru eu strategaethau ystadau yn rheolaidd ac yn ystyried yr ardal ddaearyddol y maent yn ei gwasanaethu ac agenda drawsnewid 14-19 Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae strategaethau ystadau yn elwa ar fewnbwn o ymgynghori allanol. Mae llawer o golegau yn llunio cynlluniau manwl ac yn sicrhau caniatâd cynllunio cryn dipyn ymlaen llaw, i fanteisio'n llawn ar gyllid wrth iddo ddod ar gael. Er mai cynlluniau 10 mlynedd yw strategaethau ystadau, mae colegau fel arfer yn eu diweddaru bob blwyddyn ac yn adolygu eu strategaeth ystadau i ystyried y cynlluniau datblygu rhwydweithiau ardal (CDRhA) a chynlluniau trawsnewid lleol. Mae colegau yn ymateb yn dda i'r materion hyn yn eu cynlluniau ar gyfer eu hystadau.

23 Mae dysgwyr mewn adeiladau newydd yn aml yn dangos balchder yn eu cyfleusterau newydd. Yn gyffredinol, maent yn cymryd gofal o'r adeiladau ac yn eu trin gyda pharch. Mae dysgwyr yn cadw popeth yn lân a thaclus ar y cyfan. O ganlyniad, yn aml, nid oes graffiti neu ddifrod mewn, neu o amgylch, adeiladau newydd ac adeiladau sydd wedi bod yn weithredol ers tair blynedd neu fwy.

24 Mae adeiladau newydd yn aml yn hyrwyddo cysylltiadau cymunedol gwell gydag ystod eang o grwpiau lleol ac maent yn dod yn debycach i adnoddau cymunedol. Mae cysylltiadau yn cynnwys partneriaethau gydag ystod eang o gyflogwyr lleol, ac ysgolion uwchradd a chynradd.

25 Mae'r gwelliannau yn yr adeiladau a'r cyfleusterau a ddarperir gan adeiladau newydd wedi galluogi colegau i ymgysylltu mwy gyda grwpiau ysgol mewn mentrau 14-19, er enghraifft, oherwydd bod gan y coleg gynhwysedd ychwanegol i gynnig rhaglenni cyn-alwedigaethol a rhaglenni rhagflas. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnig dilyniant i ddisgyblion ysgol i raglenni galwedigaethol addysg bellach sy'n ddigon hyblyg i gyd-fynd â gweddill rhaglen y disgyblion yn yr ysgol.

26 Yn gyffredinol, ceir ymgysylltu da gyda chyflogwyr mewn colegau, yn enwedig ym meysydd galwedigaethol traddodiadol peirianneg ac adeiladu, ond nid yw wedi'i ddatblygu'n ddigon da mewn meysydd eraill. Mae adeiladau newydd yn aml yn gwella'r berthynas gyda chyflogwyr ac yn arwain at nawdd gwell ac yng nghyfanswm nifer y cyflogwyr sy'n cymryd rhan[3]. Mae hefyd yn denu cyflogwyr a phartneriaethau eraill i ystod ehangach o feysydd dysgu.

27 Mae'r prif ganfyddiadau o'r arolwg hwn yn debyg iawn i ddeilliannau a ganfuwyd yng ngwaith cylch gwaith blaenorol Estyn yn y sector ysgolion. Maent hefyd yn debyg i ganfyddiadau ystod eang o waith arall a wnaed i asesu effaith adeiladau newydd ar ddysgwyr.

[3] Ymgysylltu â Chyflogwyr mewn Addysg Bellach, cylch gwaith Estyn Ebrill 2010

## Argymhellion

28 Er mwyn parhau i wella ansawdd adeiladau newydd mewn colegau addysg bellach:

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

A1 Ofyn i Estyn gynnal adolygiad pellach o ansawdd adeiladau newydd mewn colegau a'u heffaith ar ddysgwyr o fewn y tair blynedd nesaf pan fydd mwy o ddata ar gael i fesur tueddiadau tymor hwy.

**Dylai colegau addysg bellach:**

A2 wneud yn siwr bod effaith unrhyw adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol yn cael ei hadrodd yn flynyddol ym mhrosesau hunanasesu'r colegau;

A3 parhau i sicrhau bod y strategaethau ystadau yn gyfoes a'u bod yn cynnwys cynllun treigl ar gyfer gwella'r ystâd yn barhaus, wedi'i seilio ar achosion busnes cadarn;

A4 ymestyn y cydweithio gyda rhwydweithiau ardal lleol, gan gynnwys awdurdodau lleol, i sicrhau bod cynigion am adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol yn adlewyrchu anghenion y coleg, rhanddeiliaid lleol a rhanbarthol a cholegau eraill; ac

A5 ymestyn yr ymgysylltu gyda chyflogwyr a gweithgynhyrchwyr i'w cynnwys yn y manylion am adeiladau newydd, a lle bo'n briodol, cael mwy o nawdd am offer a chyfleusterau i ddysgwyr.

## Pa mor dda y mae colegau yn cynllunio adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol?

29 Yn gyffredinol, mae'r colegau y gwnaethom ymweld â nhw wedi bod yn effeithiol ac mewn rhai achosion yn effeithiol iawn yn gwella eu hystadau. Cyn 2006, defnyddiodd colegau eu cyllid eu hunain, yn nodweddiadol o gronfeydd wrth gefn a benthyciadau masnachol, i wella eu hadeiladau. Fe wnaethant ychwanegu at y cyllid hwn o'u dyraniadau cyfalaf gan LlCC i roi offer yn y cyfleusterau newydd. Yn y cyfnod 2004-2006, rhoddodd LlCC ychydig dros £25 miliwn i bob coleg ar gyfer gwariant cyfalaf (gweler Atodiadau 2 a 3). Defnyddiodd colegau'r cyllid hwn yn dda i sicrhau bod eu hoffer yn gyfoes ac i wella ansawdd eu hoffer.

30 Mewn rhai achosion, mae colegau mewn rhai o'r meysydd galwedigaethol wedi gallu cael nawdd am offer gan gyflogwyr. Yn benodol, mae gweithgynhyrchwyr offer wedi bod yn awyddus i gysylltu eu hunain ag adeiladau newydd ac eisiau i ddysgwyr ymgyfarwyddo â'u hoffer. Mae'r gweithgynhyrchwyr hyn wedi darparu ychydig o'r offer diweddaraf ar gyfer colegau am gyfraddau cryn dipyn yn llai neu wedi darparu eu hoffer a/neu eu deunyddiau am ddim.

31 Er 2006, mae colegau wedi gweithio'n dda gyda LlCC i fynd ymlaen â gwaith adeiladu newydd neu adnewyddu sylweddol. Mae colegau wedi dilyn eu strategaethau ystadau eu hunain yn agos i roi cynigion at ei gilydd am gyllid ac wedi codi arian sylweddol i'w gyfateb neu i gyfrannu at gyfanswm cost y prosiect. Mae'r dull mwy strwythuredig a ddatblygwyd gan LlCC wedi ategu datblygiadau pwysig o ran ystadau ar draws y sector.

32 Mae colegau yn yr arolwg wedi defnyddio eu strategaethau ystadau yn dda. Maent wedi llunio strategaethau ystadau i safon broffesiynol gyda manylder sylweddol mewn llawer o ddogfennau. Fodd bynnag, mae arweinwyr yn datgan ei bod yn fwyfwy anodd dod o hyd i ddigon o gyllid i gwblhau'r holl brosiectau y ceir manylion amdanynt yn eu cynlluniau ystadau, yn enwedig o fewn cyllidebau sy'n fwyfwy cyfyngedig.

33 Mae'r rhan fwyaf o golegau yn adolygu agweddau o adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol fel rhan o'u prosesau hunanasesu. Mae rhai colegau wedi cynnal adolygiadau o effaith adeiladau newydd. Fodd bynnag, mae'r adolygiadau hyn wedi canolbwyntio ar lwyddiant y prosiect o ran comisiynu yn hytrach na'r effaith ar ddysgwyr. Yn gyffredinol, nid yw colegau wedi gwneud digon i adolygu effaith eu hadeiladau newydd ar ddysgwyr yn ffurfiol ac yn annibynnol. Nid ydynt ychwaith yn adolygu effaith adeiladau newydd ar gyflwyno'r cwricwlwm ac ar ddatblygu rhwydweithiau lleol ac ymgysylltu â chyflogwyr.

## Beth yw effaith adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol ar ddeilliannau dysgwyr?

### Cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddo dysgwyr

34 Mae'r gyfradd y mae dysgwyr yn cwblhau rhaglenni arni yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ddata sydd ar gael (2006-2007 a 2007-2008) yn dangos gwelliant bach ar y cyfan o ryw un pwynt canran (87% i 88%) ar gyfer pob coleg. Mae hyn fwy neu lai'r un fath ar gyfer y colegau sampl a'r colegau eraill fel ei gilydd. Fodd bynnag, mae dadansoddiad o'r data ar gyfer y meysydd dysgu yn y colegau sampl sydd wedi cael adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol yn dangos bod y gyfradd gwblhau yn y meysydd hyn yn uwch, sef 1.9 pwynt canran (gweler Atodiadau 4 a 5).

35 Fe wnaeth cyfradd gyrhaeddiad dysgwyr yn ystod yr un cyfnod wella o ryw ddau bwynt canran ar gyfer pob coleg. Ar gyfer y colegau sampl, mae'r gyfradd wella bron yn bedwar pwynt canran (3.7%) ond ar gyfer y colegau eraill, mae'r gyfradd yn llai nag un pwynt canran (0.7%). Yn y meysydd dysgu yn y colegau sampl sydd wedi cael adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol, mae'r gwelliant cyfartalog yn llawer uwch, sef chwe phwynt canran (6.1%) (gweler Atodiadau 4 a 5).

36 Mae'r gyfradd ar gyfer llwyddiant dysgwyr yn ystod yr un cyfnod yn dangos bod gwelliant wedi bod ar gyfer pob un o'r colegau o ryw 3 phwynt canran. Ar gyfer y colegau sampl, mae'r gyfradd bron yn bedwar pwynt canran (3.9%) ond ar gyfer y colegau eraill, mae'r gyfradd yn llai na dau bwynt canran (1.9%). Yn y meysydd dysgu yn y colegau sampl sydd wedi cael adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol, mae'r gyfradd wella gyfartalog yn ôl pwynt canran bron yn 5% (4.9%) (gweler Atodiadau 4 a 5).

37 Mae hyn yn awgrymu bod y gwelliant yn neilliannau'r dysgwyr ar gyfer dysgwyr mewn meysydd sydd wedi cael adeiladau newydd yn well na'r gwelliant yn y coleg yn gyffredinol, ac mae'n fwy ar y cyfan na'r cyfartaledd ar gyfer pob coleg yng Nghymru.

### Cyfraddau ymrestru a phresenoldeb dysgwyr

38 Fe wnaeth lefel gyffredinol yr ymrestriadau yn y sector addysg bellach yng Nghymru ostwng o ryw 7% neu o dros 25,276 o ddysgwyr rhwng 2006-2007 a 2007-2008. Yn y colegau sampl, disgynnodd nifer yr ymrestriadau o ychydig dros 5% ar gyfartaledd (12,439 o ddysgwyr). Ar gyfer y colegau eraill, fe wnaeth yr ymrestriadau ostwng bron i 10% ar gyfartaledd (12,837 o ddysgwyr). Yn y meysydd dysgu sydd wedi cael adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol yn y colegau sampl, gostyngodd yr ymrestriadau cyfartalog o 2.2% yn unig yn erbyn y duedd gyffredinol o ostyngiad mewn ymrestriadau. Mae mwy o fanylion am y tueddiadau hyn ar gael yn Atodiadau 4 a 5).

39 Yn gyffredinol, mae cyfraddau presenoldeb dysgwyr ar draws colegau Cymru wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn cyd-fynd â thystiolaeth o arolygiadau Estyn, yn enwedig yn ystod ail hanner cylch arolygu 2004-2010. Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod ymweliadau â'r colegau sampl yn cadarnhau hyn, ond nid yw'r cynnydd hwn bob amser wedi'i gyfyngu i feysydd o'r colegau sydd wedi cael adeiladau newydd. Gall ffactorau eraill, fel darparu'r lwfans cynhaliaeth addysgol, gael effaith sylweddol ar gyfraddau presenoldeb cyffredinol hefyd.

## Beth yw safbwyntiau dysgwyr, athrawon ac arweinwyr am adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol?

40 Yn y colegau yr ymwelwyd â nhw, roedd dysgwyr yn gyson iawn yn eu hymatebion i gwestiynau gan arolygwyr am adeiladau newydd a/neu adnewyddu sylweddol. Dywedodd y rhan fwyaf o ddysgwyr eu bod yn hapus yn yr adeiladau newydd oherwydd eu bod yn hygyrch ac yn golygu bod adnoddau da iawn ar gael iddynt, gan gynnwys offer arbenigol ar gyfer rhaglenni mwy datblygedig. Dywedodd dysgwyr eraill fod ganddynt fwy o ofod dynodedig ar gyfer gwaith ymarferol, a bod hyn wedi eu helpu i gynhyrchu gwaith mwy heriol ac o ansawdd gwell. Caiff y gwaith ei arddangos am gyfnod hwy, ac felly gall darpar gyflogwyr, cleientiaid ac ymwelwyr eraill ei weld.

41 Roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyferbyniad gyda'r adeiladau blaenorol ac fe wnaethant roi sylwadau ar yr agweddau negyddol ar yr hen adeiladau, er enghraifft, diffyg gofod, goleuo gwael a mynediad gwael at gyfleusterau.

**Sylwadau gan ddysgwr adeiladu lefel 3 hŷn sy'n astudio mewn canolfan sydd newydd gael ei hadeiladu**

"Treuliais y 2 flynedd diwethaf yn astudio yn yr hen adeilad ar y campws arall. Gwnaeth yr athrawon eu gorau ac roedd ein canlyniadau'n dda er ein bod ni mewn adeilad gorlawn ac oer a oedd yn debyg i hen sied wartheg. Nawr, yn y ganolfan newydd, rwy' wir yn gallu profi fy hun a gwella'r medrau sydd eu hangen arna' i ar lefel 3. Mae fy nghyflogwr yn hapus fy mod i nawr yn astudio mewn adeilad digonol a phroffesiynol yr olwg sydd â chyfleusterau da. Bydd yn awr yn derbyn prentis arall – rhywbeth y gwnaeth ei ohirio nes iddo weld y ganolfan newydd. Mae'n rhaid i mi deithio 40 munud yn ychwanegol bob ffordd i gyrraedd y ganolfan newydd, ond mae'n sicr yn werth gwneud hyn."

42 Mewn cyferbyniad, dywedodd rhai dysgwyr fod problemau'n parhau yn yr adeilad newydd. Fe wnaethant sôn am ofod cymunedol cyfyngedig a nifer fach o leoedd parcio. Mewn un achos, cwynodd rhai dysgwyr am y pellter yr oedd yn rhaid iddynt ei deithio i'r maes adnoddau dysgu (CAD) ar ochr arall y campws. Roedd grŵp arall yn feirniadol iawn ynglŷn â'r diffyg cyfleusterau newid.

43 Roedd lleiafrif o ddysgwyr yn teimlo bod yr adeiladau newydd wedi dylanwadu arnynt i ddewis coleg penodol. At ei gilydd, roedd pob un o'r dysgwyr yn awyddus i ddweud eu bod yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cymell yn fwy. Roeddent yn teimlo eu bod yn astudio mewn cyfleuster o ansawdd dilys. Dywedodd rhai dysgwyr fod rhai o'u ffrindiau yn eiddigeddus o'r ffaith fod cyfleusterau o'r fath ar gael iddynt.

44 Gwnaeth athrawon sylwadau yn gyson am y gwelliant mawr yn ansawdd yr adeiladau ar gyfer y dysgwyr a'r modd yr oedd yn eu helpu i baratoi sesiynau addysgu a sesiynau ymarferol gwell. Dywedodd rhai athrawon, a oedd yn cynnal eu sesiwn addysgu mewn ystafelloedd dosbarth symudol yn y gorffennol, fod yr

adeiladau blaenorol yn hen, yn llaith ac yn ansefydlog a'u bod yn cyfyngu'r dulliau addysgu, yn enwedig wrth ddefnyddio byrddau gwyn rhyngweithiol ac offer TGCh.

**Sylwadau gan dri athro sy'n gweithio mewn adeiladau newydd**

"Oherwydd natur gryno dyluniad yr adeilad newydd, mae fy holl addysgu ar un llawr; rwy'n treulio fy holl amser gyda'r dysgwyr mewn cyferbyniad â symud rhwng adeiladau. Mae'n siŵr bod hyn wedi golygu cynnydd o 50% yn lefel y cymorth rwy'n gallu ei roi. Mae ymddygiad dysgwyr wedi gwella oherwydd yr ystafelloedd eang a natur dawel yr adeilad newydd."

"Mae'r adeilad a'r cyfleusterau yn rhagorol ac mae'r ffaith ei fod yn adeilad ar wahân ar y campws yn rhoi ei hunaniaeth ei hun i'r ganolfan ymhlith nifer o adeiladau diweddar eraill y coleg, y mae pob un ohonynt yn cefnogi diwylliant o ragoriaeth a phroffesiynoldeb."

"Er nad oeddwn i'n edrych ymlaen at adael yr hen adeilad, rydw i bellach yn ffan o'r adeilad newydd. Mae'n bleser dod i'r gwaith. Mae'r cymorth technegol, y cymorth TGCh a'r cymorth o swyddfa'r campws yn rhagorol, ac fe gaiff effaith gadarnhaol ar fy ngallu i addysgu. Mae'n bleser go iawn treulio chwe awr mewn adeilad golau, modern, cynnes, sy'n amgylcheddol gyfeillgar."

45 Cyfeiriodd lleiafrif o staff addysgu at adroddiadau amrywiol gan wirwyr allanol a oedd yn amlygu'r gwelliant mewn safonau dysgwyr ers i'r adeilad newydd fod yn weithredol.

46 At ei gilydd, roedd mwyafrif yr athrawon a gafodd eu cyfweld yn teimlo eu bod bellach yn addysgu'n well a'u bod yn cynyddu cyfleoedd a phrofiadau dysgu i'w dysgwyr.

47 Roedd y rhan fwyaf o arweinwyr yn hyderus ynglŷn â chynllunio, gwella a rheoli ystadau'r coleg. Roedd rhai yn teimlo bod gwaith cynnal nad yw'n hanfodol ar hen adeilad yn wastraffus o bosibl pan mai adeilad newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol oedd yr ateb go iawn. Amlygodd dysgwyr y tensiwn rhwng faint o arian sydd ar gael a'r hyn yr oedd angen ei wneud i'r ystâd. Pan ddaw adeilad newydd yn weithredol, roedd arweinwyr yn cael synnwyr cryf o gyflawniad ac roeddent wedi'u cymell i ganolbwyntio ar yr adeilad newydd nesaf a/neu brosiect adnewyddu sylweddol. Cyfeiriodd arweinwyr mewn rhai colegau at yr ôl-groniad o waith cynnal hanfodol yr oeddent wedi'i etifeddu wrth ddechrau yn eu swyddi.

48 Roedd arweinwyr yn sicrhau bod strategaethau ystadau eu colegau yn cael eu diweddaru'n rheolaidd a'u bod yn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol yr oeddent yn ei gwasanaethu, yr agenda drawsnewid 14-19 ac anghenion cyflogwyr. Defnyddiodd y rhan fwyaf o arweinwyr ymgynghorwyr allanol i gynorthwyo gyda pharatoi eu strategaethau ystadau. Fel rhan o'r strategaethau hyn, fe wnaeth y rhan fwyaf o arweinwyr leoli cyfran o'u hadeiladau newydd yn agos at barciau busnes priodol neu ystadau diwydiannol. Fe wnaeth hyn annog busnesau cyfagos i ddefnyddio'r cyfleusterau naill ai fel cyflogwyr ar gyfer dysgwyr, fel cleientiaid ar gyfer gwaith masnachol neu fel partneriaid mewn trefniadau noddi. Gellid defnyddio adeiladau newydd hefyd fel lleoliadau ar gyfer cystadleuaeth fedrau genedlaethol ac fe wnaeth

hyn wella proffil a ffocws diwydiannol y canolfannau ymhellach. Roedd y mathau hyn o drefniadau yn annog dysgwyr i fynd i'r afael â gwaith o safon ddiwydiannol go iawn sy'n nodweddiadol yn cael effaith fawr ar gyflogadwyedd dysgwyr.

**Delio ag effaith adeilad newydd ar gymdogaeth leol**

Mae un o'r colegau llai yr ymwelwyd ag ef wedi'i leoli mewn ardal breswyl ac yn gweld bod y trigolion lleol yn gwrthwynebu pob un o'i brosiectau adeiladau newydd. Gan fod y coleg yn boblogaidd, mae'r trigolion hefyd yn pryderu y bydd eu niferoedd dysgu yn cynyddu gormod. Gwnaed apêl ynghylch y tri chais cynllunio diwethaf gan y coleg. Mae'r coleg yn cynllunio'n fanwl ar gyfer ei brosiectau adeiladau newydd ymhell ymlaen llaw er mwyn iddynt allu ymateb yn gyflym pan fydd cyllid ar gael. Caiff y coleg ganiatâd cynllunio ymlaen llaw wedi'i seilio ar eu strategaeth ystadau. Mae'r coleg yn parhau i weithio'n galed ar gyfathrebu gyda'r trigolion lleol trwy sefydlu grŵp cymdogaeth i ymgynghori â nhw ac i wella'r cyfathrebu rhyngddynt a'r coleg.

49 Dywedodd arweinwyr fod adeiladau newydd yn rhoi cyfle i golegau roi'r cyfleusterau diweddaraf mewn canolfannau newydd, yn enwedig TGCh ac offer arbenigol. Daeth rhywfaint o'r offer mwy arbenigol hwn yn aml yn sgil trefniadau nawdd gan weithgynhyrchwyr offer a oedd yn awyddus i fod yn gysylltiedig â chanolfannau newydd sy'n deillio o adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol.

## Beth yw effaith adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol ar ddatblygiadau 14-19 ac ar ymgysylltu â chyflogwyr?

50 Mae'r gwelliannau yn ansawdd y cyfleusterau wedi galluogi llawer mwy o ymglymiad gyda grwpiau ysgol a mentrau 14-19 eraill fel cyflwyno rhaglenni rhagflas cyn-alwedigaethol y gellir eu cynnal sawl gwaith y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnig dilyniant i raglenni galwedigaethol addysg bellach ar gyfer disgyblion sydd yn awr yn gallu dechrau sawl gwaith y flwyddyn i oresgyn cyfyngiadau'r flwyddyn academaidd safonol.

51 Dechreuodd colegau gynllunio strategaethau ystadau am y tro cyntaf tua 2000. Er bod y cynlluniau 10 mlynedd hyn wedi cael eu diweddaru bob blwyddyn ar y cyfan, mae mwyafrif y colegau yn adolygu eu strategaeth ystadau yn rheolaidd i ystyried y cynlluniau datblygu rhwydwaith ardal (CDRhA) a'r agenda drawsnewid.

**Adeiladau newydd a datblygiadau 14-19**

Llwyddodd un coleg y gwnaethom ymweld ag ef i ennill cyllid sylweddol i adeiladu adeilad newydd wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer y dysgwyr cyswllt ysgol 14-16 ac 16-19 oed. Mae hon yn ganolfan gyfoes sy'n cael ei rheoli mewn modd arloesol ac amgylcheddol. Mae wedi galluogi'r coleg i ddangos ei ymrwymiad i'r ysgolion partner a'r rhwydweithiau dysgu yn eu hardal. Mae'r ganolfan yn boblogaidd iawn gyda disgyblion yr ysgol leol sy'n ei defnyddio. Mae hyn yn arbennig o wir pan fyddant yn mynychu fel grwpiau cyfan. Mae'r coleg yn teimlo mai hwn yn ôl pob tebyg yw'r adeilad newydd cyntaf i gael ei ddarparu ar gyfer disgyblion cyswllt ysgol yn hytrach na disgyblion yn defnyddio cyfleusterau sydd eisoes yn bod neu ddefnyddio cyfleusterau newydd fel rhan o adeiladau newydd neu waith adnewyddu sylweddol.

52 Mae nifer y disgyblion ysgol sy'n mynychu colegau addysg bellach wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae colegau wedi gweithio'n dda gydag ysgolion unigol i gynllunio rhaglenni ac mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau newydd diweddar wedi cynnwys mannau sy'n cael eu neilltuo ar gyfer dysgwyr cyswllt ysgol.

53 Yn y colegau yr ymwelwyd â nhw, roedd ansawdd yr ymgysylltu â chyflogwyr yn arbennig o dda ym meysydd galwedigaethol traddodiadol peirianneg ac adeiladu, ond mae'n tueddu i fod heb ei ddatblygu digon mewn meysydd eraill. Roedd adeiladau newydd yn aml yn gwella'r perthnasoedd hyn ac yn arwain at welliant sylweddol yn nifer y cyflogwyr a oedd yn cymryd rhan. Roedd hefyd yn denu cyflogwyr a phartneriaid eraill i ystod ehangach o feysydd dysgu.

**Adeiladau newydd a gwella’r cysylltiadau gyda chyflogwyr**

Pan agorodd coleg y gwnaethom ymweld ag ef ei ganolfan adeiladu newydd, cynhaliodd seminar ar gyfer cyflogwyr lleol ar iechyd a diogelwch ar y safle. Cyflwynwyd y seminar ar y cyd rhwng arbenigwyr diwydiannol a staff addysgu adeiladu’r coleg. Mynychodd dros 140 o gyflogwyr y seminar i gyd, yn ogystal â dysgwyr a staff y coleg. Cafodd y cyflogwyr daith o amgylch y cyfleusterau newydd hefyd. Trwy wneud hyn, gallent weld yn uniongyrchol rhywfaint o’r gwaith o ansawdd uchel a gynhyrchwyd gan rai o’r dysgwyr yn y cyfleusterau modern rhagorol. Roedd rhai o’r dysgwyr hyn wedi ennill cystadlaethau a gwobrau cenedlaethol ac roeddent yn hapus i arddangos eu gwaith. Mae hyn yn codi proffil y coleg ymhlith ystod eang o gyflogwyr ac mae’n arwain at lefelau gwell o ymgysylltu â chyflogwyr.

54 Mae’r canolfannau newydd hyn, sy’n aml yn cael eu marchnata fel ‘canolfannau rhagoriaeth’, yn cynnwys gofod, offer a chyfleusterau eraill i gynnal digwyddiadau masnachu ar gyfer cyrff dyfarnu a chystadlaethau masnachu rhanbarthol a chenedlaethol. Er enghraifft, roedd y coleg y gwnaethom ymweld ag ef yn brysur yn paratoi ar gyfer cynhadledd ranbarthol mewn peirianneg cerbydau modur i amlygu effaith go iawn gyrru’n beryglus, gan gynnwys yfed a gyrru a gyrru dan ddylanwad cyffuriau.

55 Mae colegau wedi gwella o ran ymateb yn gyflym i ofynion diwydiant ac maent wedi ymateb yn dda i’r agenda newydd ar gyfer gwella medrau sydd wedi dod i’r amlwg yn sgil y dirwasgiad economaidd. Mae strategaethau ystadau wedi cael eu haddasu’n dda i ystyried y gofynion newydd hyn a chyfleoedd ar gyfer datblygu.

**Nawdd cyflogwr gweithgynhyrchu yn dilyn adeiladau a chyfleusterau newydd**

Ar ôl cwblhau adeilad newydd mawr, cysylltodd coleg y gwnaethom ymweld ag ef ag un o’u cyflogwyr partner sy’n arbenigo mewn gweithgynhyrchu brand adnabyddus o foeler i’r cartref sy’n cyfuno gwres canolog a dŵr poeth. Ar ôl ymweliad i weld yr adeiladau newydd, cytunodd y cyflogwr i ddarparu 8 boeler am ddim i ddysgwyr eu defnyddio. Fe wnaeth y cyflogwr hefyd gytuno i gynnal y boeleri a’u disodli gyda’r modelau diweddaraf cyn gynted ag y byddent ar gael. Arweiniodd hyn at arbedion sylweddol i’r coleg. O ganlyniad, daeth y coleg hefyd yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer y diwydiant yr oedd ei gwmnïau yn anfon eu peirianwyr gwresogi cymwys i fynychu rhaglenni arbenigol er mwyn cynnal eu gwybodaeth gyfoes.

## Atodiad 1

### Polisi ac ymchwil

56 Yn y sector ysgolion, cynhaliwyd ymchwil gan Pricewaterhouse Cooper yn 2003 ar ran yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth[4]. Defnyddiodd yr ymarfer hwn ddulliau meintiol ac ansoddol i ddadansoddi effaith buddsoddiadau cyfalaf ar berfformiad.

57 Dyma oedd y canfyddiadau allweddol o'r dadansoddiad meintiol:

- bod cyswllt ystadegol sylweddol a chadarnhaol rhwng buddsoddi cyfalaf a pherfformiad disgyblion; a
- bod cyswllt cryfach gyda pherfformiad lle bu gwelliannau mewn meysydd penodol o'r cwricwlwm.

58 Dyma oedd y canfyddiadau allweddol oedd wedi'u cynnwys yn y dystiolaeth ansoddol:

- bod gwelliannau i'r adeilad yn gwella perfformiad dysgwyr trwy gymhelliant cynyddol ymhlith dysgwyr ac athrawon ac ymddygiad gwell gan ddysgwyr;
- gallai buddsoddiad cymharol fach gael effaith sylweddol; ac
- nid oedd gwelliannau i adeiladau ar ei ben ei hun yn cael cymaint o effaith ar berfformiad dysgwyr â ffactorau eraill fel gwella ansawdd yr addysgu.

59 Cwblhaodd Frontier Economics adroddiad ar gyfer y Cyngor Dysgu a Sgiliau ar 'Evaluating the impact of capital expenditure in further education - A report prepared for the LSC in April 2007'. Defnyddiodd yr astudiaeth offer ystadegol i ganfod a oedd unrhyw wahaniaethau mewn colegau a oedd yn derbyn cyfalaf ar gyfer adeiladau newydd a'r rhai nad oeddent yn ei dderbyn. Fe wnaethant ddisgrifio'r gydberthynas rhwng buddsoddi cyfalaf a newid mewn cyfranogiad a chyrhaeddiad.

60 Canfu'r dadansoddiad fod buddsoddi cyfalaf yn gysylltiedig â newidiadau cadarnhaol o ran cyfraddau cyfranogi a chyrhaeddiad gwell. Canfu fod cyfranogiad dysgwyr yn gwella ar gyfer prosiectau sy'n costio dros £1.5 miliwn. Yn wir, am bob £1 miliwn sy'n cael ei wario dros y trothwy hwn, bu cyfranogiad cynyddol o 92 o ddysgwyr bob blwyddyn. Fe wnaeth cyfraddau cyrhaeddiad wella hefyd, ond nid ar gyfer pob coleg. Gwelodd colegau y mae eu cyrhaeddiad yn is na'r cyfartaledd a oedd wedi derbyn dros £9 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf, gynnydd mewn cyrhaeddiad o 0.36 pwynt canran ar gyfer pob £1 miliwn yn ychwanegol uwchlaw'r £9 miliwn.

61 Mae Astudiaethau o Effaith Economaidd (2008) Cymdeithas y Colegau (AoC) yn honni, 'Ar gyfer pob £1 sy'n cael ei fuddsoddi gan y llywodraeth mewn colegau, mae'r trethdalwr yn gweld adenillion ar fuddsoddiad o £1.70; mae cyfanswm y buddion a'r arbedion economaidd gymdeithasol sy'n gysylltiedig â cholegau yn cynhyrchu 8% o adenillion ar fuddsoddiad i lywodraeth y DU ar gyfartaledd '.

[4] Building Better Performance: an Empirical Assessment of the Learning and Other Impacts of School Capital Investment. Research report 407, DfES (2003)

62 Yn adroddiad y Cyngor Dysgu a Sgiliau, ‘Evaluating the impact of capital expenditure in further education’ (Rhagfyr 2008), dywedir bod ‘gwariant cyfalaf yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar gyfranogi mewn AB; ar gyfer pob £1 miliwn yn ychwanegol sy’n cael ei wario, mae cyfranogiad yn cynyddu o 111 o ddysgwyr ar gyfartaledd, mae cynnydd o 46 o unigolion yn nifer y dysgwyr 16 i 18 oed, a chynnydd o 65 o unigolion yn nifer y dysgwyr sy’n oedolion’. Mae’r papur yn honni ymhellach fod ‘prosiect buddsoddiad cyfalaf £10 miliwn nodweddiadol yn gwella cyfraddau llwyddo o bron i 1%.’

63 Daeth Adroddiad Cylch Gwaith Estyn ‘Arfarniad o berfformiad ysgolion cyn ac ar ôl symud i adeiladau newydd neu eiddo a adnewyddwyd yn sylweddol’ (Ionawr 2007) i’r casgliad canlynol: ‘Nid yw hen adeiladau ysgol sydd mewn cyflwr gwael yn gallu bodloni anghenion addysgu a dysgu modern…’ Canfu’r adroddiad fod cyrhaeddiad, cyflawniad ac ymddygiad disgyblion wedi gwella. Roedd ansawdd yr addysgu wedi gwella, gydag ysgolion yn gallu cynnig mwy o ddewis i ddisgyblion gan fod mwy o ofod a chyfleusterau gwell.

## Atodiad 2

**Cyllid grantiau cyfalaf ac adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol 2004-2010 gan gynnwys cyfraniadau gan LlCC a cholegau addysg bellach.**

| | Cyfnod | Cyfanswm y Cyllid (£000 oedd) | Cyfraniad LlCC (£000 oedd) | Cyfraniad LlCC (%) | Cyfraniad colegau addysg bellach (£000 oedd) | Cyfraniad colegau addysg bellach (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grantiau cyfalaf** | **2004-2005** | 10,917 | 10,917 | 100 | | |
| | **2005-2006** | 14,529 | 14,529 | 100 | | |
| **Cyfanswm y cyllid 2004-2006** | | **25,446** | **25,446** | **100** | | |
| **Grantiau prosiect adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol** | **2006-2007** | 25,001 | 12,095 | 48 | 12,905 | 52 |
| | **2007-2008** | 13,337 | 7,383 | 55 | 5,954 | 45 |
| | **2008-2009** | 34,654 | 17,801 | 51 | 16,854 | 49 |
| | **2009-2010*** | 90,368 | 74,253 | 82 | 16,115 | 18 |
| **Cyfanswm y cyllid 2006-2010** | | **163,360** | **111,532** | **68** | **51,828** | **32** |

**Nodiadau**

***** Yn cynnwys prosiectau arfaethedig nad ydynt efallai wedi'u cwblhau eto.

Cyfanswm y gwariant yw'r ffigurau hyn sy'n cynnwys grantiau LlCC yn unig, gyda chyfraniadau gan golegau. Nid yw'n cynnwys buddsoddi mewn adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol a wnaed gan golegau heb grantiau LlCC neu grantiau a chyllid a ddarparwyd o ffynonellau eraill.

Talgrynnwyd y ffigurau i'r 1000 agosaf er eglurder.

# Atodiad 3

## Cyllid wedi'i gefnogi gan LlCC ar gyfer colegau AB 2004/2009

| 2004-2005 | 2005-2006 | Cyfamswm 2004-2006 | % y gyfran 2004-2006 | 2006-2007 | 2007-2008 | 2008-2009 | Cyfanswm 2004-2009 | % y gyfran 2004-2009 | Safle'r gyfran 2004-2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***1,653,673*** | ***2,150,482*** | ***3,804,155*** | ***14.9*** | | | ***12,247,003*** | ***16,051,158*** | ***16.3*** | ***1*** |
| ***722,368*** | ***877,701*** | ***1,600,069*** | ***6.3*** | ***3,861,168*** | | ***8,291,800*** | ***13,753,037*** | ***14.0*** | ***2*** |
| ***495,400*** | ***712,709*** | ***1,208,109*** | ***4.7*** | ***3,500,000*** | ***1,392,000*** | ***1,695,000*** | ***7,795,109*** | ***7.9*** | ***3*** |
| ***598,395*** | ***837,537*** | ***1,435,932*** | ***5.6*** | | | ***6,346,000*** | ***7,781,932*** | ***7.9*** | ***4*** |
| ***469,820*** | ***615,000*** | ***1,084,820*** | ***4.3*** | | ***5,976,136*** | | ***7,060,956*** | ***7.2*** | ***5*** |
| ***728,501*** | ***877,170*** | ***1,605,671*** | ***6.3*** | ***4,976,462*** | | | ***6,582,133*** | ***6.7*** | ***6*** |
| ***647,675*** | ***898,638*** | ***1,546,313*** | ***6.1*** | ***3,978,005*** | | | ***5,524,318*** | ***5.6*** | ***7*** |
| ***639,659*** | ***891,170*** | ***1,530,829*** | ***6.0*** | ***2,421,283*** | ***1,430,038*** | | ***5,382,150*** | ***5.5*** | ***8*** |
| ***335,385*** | ***418,104*** | ***753,489*** | ***3.0*** | ***1,706,274*** | ***965,224*** | ***1,424,335*** | ***4,849,322*** | ***4.9*** | ***9*** |
| ***457,516*** | ***520,258*** | ***977,774*** | ***3.8*** | | ***3,573,449*** | | ***4,551,223*** | ***4.6*** | ***10*** |
| 193,434 | 269,499 | 462,933 | 1.8 | | | 3,900,000 | 4,362,933 | 4.4 | 11 |
| 677,927 | 817,924 | 1,495,851 | 5.9 | | | 750,358 | 2,246,209 | 2.3 | 12 |
| 600,042 | 755,220 | 1,355,262 | 5.3 | 454,000 | | | 1,809,262 | 1.8 | 13 |
| ***213,963*** | ***396,034*** | ***609,997*** | ***2.4*** | ***1,197,000*** | | | ***1,806,997*** | ***1.8*** | ***14*** |
| ***764,708*** | ***949,839*** | ***1,714,547*** | ***6.7*** | | | | ***1,714,547*** | ***1.7*** | ***15*** |
| ***329,150*** | ***498,733*** | ***827,883*** | ***3.3*** | ***723,000*** | | | ***1,550,883*** | ***1.6*** | ***16*** |
| 416,864 | 492,373 | 909,237 | 3.6 | 580,000 | | | 1,489,237 | 1.5 | 17 |
| 155,607 | 196,387 | 351,994 | 1.4 | 1,069,367 | | | 1,421,361 | 1.4 | 18 |
| 107,879 | 226,930 | 334,809 | 1.3 | 534,000 | | | 868,809 | 0.9 | 19 |
| 270,946 | 448,112 | 719,058 | 2.8 | | | | 719,058 | 0.7 | 20 |
| 149,940 | 300,937 | 450,877 | 1.8 | | | | 450,877 | 0.5 | 21 |
| 174,056 | 222,950 | 397,006 | 1.6 | | | | 397,006 | 0.4 | 22 |
| 75,376 | 118,316 | 193,692 | 0.8 | | | | 193,692 | 0.2 | 23 |
| 31,805 | 30,379 | 62,184 | 0.2 | | | | 62,184 | 0.1 | 24 |
| 6,909 | 6,599 | 13,508 | 0.1 | | | | 13,508 | 0.01 | 25 |
| 10,916,998 | 14,529,001 | 25,445,999 | 100 | 25,000,559 | 13,336,847 | 34,654,496 | 98,437,901 | 100 | |
| Canran y gwariant cyfalaf ar gyfer 2004-2006 wedi'i gynrychioli gan y colegau yn y sampl | | | **73.5** | | Canran y gwariant cyfalaf ar gyfer 2004-2009 wedi'i gynrychioli gan y colegau yn y sampl | | | **85.7** | |

**Sylwer**

Y ffigurau mewn **ysgrifen dywyll italig** yw'r ffigurau ar gyfer y colegau y gwnaethom ymweld â nhw.

## Atodiad 4

**Perfformiad cyffredinol dysgwyr yng ngholegau'r arolwg.**

Mae'r tabl hwn yn cymharu perfformiad dysgwyr yng ngholegau'r arolwg o 2006-2007 i 2007-2008 mewn perthynas â niferoedd cwblhau (C), cyrhaeddiad (CYR), llwyddo (Ll) ac ymrestru (Y). Mae hefyd yn dangos yr amrywiant rhwng y ddau gyfnod ar gyfer pob dangosydd (Amr).

| 2006-2007 (C) | 2007-2008 (C) | Amr. (C) | 2006-2007 (CYR) | 2007-2008 (CYR) | Amr. (CYR) | 2006-2007 (Ll) | 2007-2008 (Ll) | Amr. (Ll) | 2006-2007 (Y) | 2007-2008 (Y) | Amr. (Y) | Amr. (Y) % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 80 | 83 | 3 | 76 | 76 | 0 | 62 | 64 | 2 | 12,392 | 12,008 | -384 | -3 |
| 85 | 85 | 0 | 82 | 83 | 1 | 68 | 69 | 1 | 15,050 | 15,973 | 923 | 6 |
| 94 | 90 | -4 | 92 | 96 | 4 | 86 | 89 | 3 | 15,242 | 15,311 | 69 | 0 |
| 89 | 85 | -4 | 82 | 75 | -7 | 72 | 63 | -9 | 21,005 | 16,560 | -4,445 | -21 |
| 90 | 89 | -1 | 78 | 85 | 7 | 70 | 76 | 6 | 48,415 | 47,710 | -705 | -1 |
| 85 | 88 | 3 | 92 | 90 | -2 | 78 | 78 | 0 | 28,001 | 25,746 | -2,255 | -8 |
| 88 | 91 | 3 | 79 | 80 | 1 | 70 | 73 | 3 | 4,987 | 4,072 | -915 | -18 |
| 79 | 82 | 3 | 80 | 87 | 7 | 62 | 70 | 8 | 13,722 | 11,695 | -2,027 | -15 |
| 83 | 85 | 2 | 71 | 76 | 5 | 60 | 65 | 5 | 19,291 | 17,343 | -1,948 | -10 |
| 85 | 87 | 2 | 59 | 74 | 15 | 49 | 63 | 14 | 15,438 | 17,149 | 1,711 | 11 |
| 83 | 86 | 3 | 82 | 87 | 5 | 69 | 76 | 7 | 15,226 | 12,438 | -2,788 | -18 |
| 79 | 82 | 3 | 72 | 84 | 12 | 58 | 70 | 12 | 11,211 | 10,589 | -622 | -6 |
| 88 | 87 | -1 | 75 | 75 | 0 | 66 | 65 | -1 | 24,364 | 25,311 | 947 | 4 |
| **Cyfanswm yr amrywiad** | | **12** | | | **48** | | | **51** | **244,344** | **231,905** | **-12,439** | **-79** |
| **Amrywiad cyfartalog** | | **0.9** | | | **3.7** | | | **3.9** | | | **-957** | **-5.1** |

**Perfformiad dysgwyr yn y colegau nad oeddent yn yr arolwg.**

Mae'r tabl hwn yn cymharu perfformiad dysgwyr yn y colegau nad oeddent yn yr arolwg rhwng 2006-2007 a 2007-2008 mewn perthynas â niferoedd cwblhau (C), cyrhaeddiad (CYR), llwyddo (Ll) ac ymrestru (Y). Mae hefyd yn dangos yr amrywiant rhwng y ddau gyfnod ar gyfer pob dangosydd (Amr).

| 2006-2007 (C) | 2007-2008 (C) | Amr. (C) | 2006-2007 (CYR) | 2007-2008 (CYR) | Amr. (CYR) | 2006-2007 (Ll) | 2007-2008 (Ll) | Amr. (Ll) | 2006-2007 (Y) | 2007-2008 (Y) | Amr. (Y) | Amr. (Y) % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 84 | 80 | -4 | 87 | 89 | 2 | 75 | 78 | 3 | 5,346 | 5,038 | -308 | -6 |
| 92 | 92 | 0 | 73 | 80 | 7 | 67 | 74 | 7 | 21,691 | 17,476 | 17,476 | -19 |
| 92 | 92 | 0 | 77 | 62 | -15 | 70 | 57 | -13 | 4,127 | 3,687 | -440 | -11 |
| 82 | 87 | 5 | 79 | 84 | 5 | 66 | 74 | 8 | 3,078 | 3,786 | 708 | 23 |
| 91 | 90 | -1 | 72 | 76 | 4 | 65 | 69 | 4 | 13,699 | 13,546 | -153 | -1 |
| 88 | 90 | 2 | 91 | 71 | -20 | 80 | 64 | -16 | 3,486 | 4,854 | 1,368 | 39 |
| 90 | 90 | 0 | 70 | 71 | 1 | 63 | 63 | 0 | 33,901 | 24,385 | -9,516 | -28 |
| 92 | 93 | 1 | 79 | 85 | 6 | 73 | 80 | 7 | 3,714 | 4,827 | 1,113 | 30 |
| 92 | 92 | 0 | 57 | 57 | 0 | 52 | 52 | 0 | 20,751 | 20,101 | -650 | -3 |
| 86 | 88 | 2 | 44 | 56 | 12 | 38 | 51 | 13 | 7,962 | 8,611 | 649 | 8 |
| 99 | 99 | 0 | 97 | 99 | 2 | 96 | 98 | 2 | 4,010 | 4,495 | 485 | 12 |
| 77 | 82 | 5 | 81 | 85 | 4 | 66 | 74 | 8 | 10,996 | 9,118 | -1,878 | -17 |
| **Cyfanswm yr amrywiad** | | **10** | | | **8** | | | **23** | **132,761** | **119,924** | **-12,837** | **27** |
| **Amrywiad cyfartalog** | | **0.8** | | | **0.7** | | | **1.9** | | | **-1,070** | **-9.7** |

## Atodiad 5

**Perfformiad dysgwyr yn y meysydd dysgu gydag adeiladau newydd a/neu waith adnewyddu sylweddol i adeiladau.**

Mae'r tabl hwn yn cymharu perfformiad dysgwyr rhwng 2006-2007 a 2007-2008 mewn perthynas â chyfraddau cwblhau (C), cyrhaeddiad (CYR), llwyddo (Ll) ac ymrestru (Y). Mae hefyd yn dangos yr amrywiant rhwng y ddau gyfnod ar gyfer pob dangosydd (Amr).

| Meysydd dysgu colegau'r sampl | Amrywiad % (C) | Amrywiad % (A) | Amrywiad % (Ll) | 2006-2007 (Y) | 2007-2008 (Y) | Amrywiad (Y) | % Amrywiad ymrestru (Y) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adeiladu | 7 | 7 | 10 | 2016 | 2015 | -1 | -0.05 |
| Peirianneg | 3 | -2 | 10 | 1,161 | 1,268 | 107 | 9.2 |
| TGCh | 5 | 0 | 2 | 1,118 | 971 | -147 | -13.1 |
| Adeiladu | 6 | 1 | 7 | 627 | 657 | 30 | 4.8 |
| Y Celfyddydau Perfformiadol | 7 | -5 | 2 | 277 | 272 | -5 | -1.8 |
| Celf a Dylunio | 2 | 13 | 2 | 541 | 648 | 107 | 19.8 |
| Adeiladu | 1 | 3 | 4 | 692 | 521 | -171 | -24.7 |
| Peirianneg | -5 | -1 | -5 | 1,561 | 1,403 | -158 | -10.1 |
| Peirianneg | 1 | 15 | 8 | 478 | 245 | -233 | -48.7 |
| Adeiladu | 2 | 17 | 16 | 1,242 | 1,245 | 3 | 0.2 |
| Peirianneg | -5 | -9 | -12 | 1,797 | 1,177 | -620 | -34.5 |
| Adeiladu | 1 | -2 | -2 | 1,387 | 1,207 | -180 | -13.0 |
| Lletygarwch | -5 | 0 | -4 | 604 | 652 | 48 | 7.9 |
| Amaethyddiaeth | -1 | -11 | -10 | 1,102 | 856 | -246 | -22.3 |
| Peirianneg | -3 | -4 | -18 | 502 | 260 | -242 | -48.2 |
| Gofal | -3 | 3 | 0 | 1,411 | 1,633 | 222 | 15.7 |
| Peirianneg | 4 | 16 | 8 | 734 | 664 | -70 | -9.5 |
| Adeiladu | 2 | 5 | 6 | 897 | 996 | 99 | 11.0 |
| Peirianneg | 4 | 6 | 9 | 662 | 802 | 140 | 21.1 |
| Adeiladu | 0 | 5 | 3 | 435 | 835 | 400 | 92.0 |
| Gwallt a Harddwch | 8 | 6 | 12 | 796 | 1,155 | 359 | 45.1 |
| Y Celfyddydau Perfformiadol | 1 | 16 | 10 | 260 | 135 | -125 | -48.1 |
| Celf a Dylunio | 1 | 9 | 7 | 2,107 | 1,657 | -450 | -21.4 |
| Adeiladu | 5 | 15 | 15 | 1,172 | 1,848 | 676 | 57.7 |
| Peirianneg | 15 | 14 | 23 | 746 | 982 | 236 | 31.6 |
| TGCh | 1 | 26 | 22 | 1,893 | 1,726 | -167 | -8.8 |
| Y Celfyddydau Perfformiadol | 6 | -8 | -13 | 172 | 278 | 106 | 61.6 |
| Adeiladu | 7 | 1 | 3 | 848 | 771 | -77 | -9.1 |
| Peirianneg | 1 | 8 | 9 | 723 | 1,008 | 285 | 39.4 |
| Amaethyddiaeth | 10 | 16 | 21 | 274 | 663 | 389 | 142.0 |
| Adeiladu | -3 | 16 | 7 | 474 | 337 | -137 | -28.9 |
| Peirianneg | -3 | 16 | 7 | 697 | 583 | -114 | -16.4 |
| Y Celfyddydau Perfformiadol | 0 | 14 | 13 | 186 | 230 | 44 | 23.7 |
| Adeiladu | -7 | 14 | 6 | 817 | 416 | -401 | -49.1 |
| Peirianneg | 1 | -1 | -1 | 1,578 | 1,261 | -317 | -20.1 |
| Lletygarwch | 1 | 2 | 0 | 453 | 347 | -106 | -23.4 |
| **Cyfanswm yr amrywiad** | **67** | **221** | **177** | **32,440** | **31,724** | **-716** | **131.6** |
| **Amrywiad cyfartalog** | **1.9** | **6.1** | **4.9** | | | | **2.2** |

## Geirfa/cyfeiriadau

| | |
|---|---|
| **Adeiladau Newydd** | mae'n cyfeirio at adeiladau cwbl newydd a adeiladwyd ar dir newydd neu dir sydd wedi cael ei glirio ar gyfer y pwrpas hwnnw. |
| **Adnewyddu** | addasu adeilad presennol yn sylweddol sy'n cynnwys newid defnydd y cwricwlwm yn llwyr. |
| **Cyfraddau cwblhau** | mae'n dangos pa gyfran o ddysgwyr sy'n cwblhau cwrs ar ôl ymrestru arno. |
| **Cyfraddau cyrhaeddiad** | mae'n dangos pa gyfran o ddysgwyr sy'n ennill y cymhwyster ar ôl cwblhau cwrs. |
| **Cyfraddau llwyddo** | mae'n dangos pa gyfran o ddysgwyr sy'n ennill y cymhwyster ar ôl ymrestru ar gwrs. |
| **Ymrestriadau** | niferoedd y dysgwyr sy'n ymuno â rhaglen astudio neu gwrs. |

## Tîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Bernard Hayward AEM | Arolygydd cofnodol |
| Eleanor Davies AEM | Arolygydd tîm |
| Christine Hooper AEM | Arolygydd tîm |
| Janice Thomas AEM | Arolygydd tîm |